

PWYLLGOR SAFONAU

15 Tachwedd 2017

Yn Bresennol: Mrs J Wainwright (Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair)
Mr A Archer, Cynghorydd P Morgan a Mrs V Tomlinson.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 10.50am)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mr R Barrett-Evans a'r Cynghorydd R Owens.

2. Datgan Buddiannau

Datganodd Mr A Archer bod ganddo fuddiant yn eitemau 4 a 5 ar yr Agenda, sef Adroddiadau Blynyddol y Swyddog Monitro ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 28^{ain} o Fehefin 2017 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 28^{ain} o Fehefin 2017.

4. Personol

Dywedodd y Swyddog Monitro mai'r cyfarfod y diwrnod hwnnw fyddai wedi bod y cyfarfod olaf i Gadeirydd y Pwyllgor, Mr R Barrett-Evans wrth i dymor ei swydd ddod i ben ar 16 Rhagfyr 2017. Gan wybod na fyddai'n bresennol yn y cyfarfod, roedd y Swyddog Monitro wedi ysgrifennu ato i ddiolch iddo am ei wasanaeth, ac roedd wedi derbyn ymateb lle'r oedd Mr Barrett-Evans wedi mynegi ei ddiolch i'r swyddogion ac i'w gyd-Aelodau o'r Pwyllgor am eu cymorth yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Nodwyd bod hysbyseb wedi'i osod yn y wasg ar gyfer aelod newydd o'r Pwyllgor Safonau, a gofynnwyd i'r Aelodau dynnu hyn at sylw unrhyw un a allai fod â diddordeb.

5. Adroddiad Blynyddol y Swyddog Monitro 2016/17

Roedd adroddiad y Swyddog Monitro yn nodi'r categorïau o gŵyn oedd yn rhan o'i gylch gorchwyl. Pleser ganddo oedd nodi nad oedd wedi gorfod llunio unrhyw adroddiad mewn perthynas â'r cwynion hyn ystod y flwyddyn flaenorol. Nid oedd yn rhaid iddo ychwaith ddelio ag unrhyw atgyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynglŷn â materion Cod Ymddygiad mewn perthynas ag unrhyw Aelod nac o dan y weithdrefn Datrys Anghydfodau Lleol mewn perthynas â chwynion a wnaed gan un Aelod yn erbyn Aelod arall.



Serch hynny, dywedodd y Swyddog Monitro bod y Pwyllgor Safonau wedi rhoi goddefeb i un Aelod ar faterion penodol mewn perthynas â Threfdraeth, Sir Benfro, ac roedd Cynghorwyr Cyngor Sir Penfro wedi cael goddefeb mewn perthynas â materion Cyngor Sir Penfro.

Dywedodd yr Aelodau eu bod yn gwerthfawrogi'r cyngor a roddir gan y Swyddog Monitro, a gofynnwyd iddo a oedd o'r farn bod yr Awdurdod yn rheoli'r risg bod pethau'n mynd o chwith yn foddhaol. Atebodd y Swyddog Monitro ei fod yn hapus â threfniadau archwilio a chraffu yr Awdurdod ac nad oedd dim oedd wedi bod yn achos pryder iddo.

NODWYD.

6. Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2016/17

Gan gyfeirio at yr adroddiad, pleser gan y Swyddog Monitro oedd nodi, o'r ddau achos yn erbyn yr Awdurdod a gyfeiriwyd at yr Ombwdsmon, bod un wedi ei ddsbarthu fel achos cynamserol a bod yr achos arall wedi'i gau ar ôl ystyriaeth gychwynnol.

Roedd un Aelod yn hapus iawn â'r adroddiad, gan ei fod o'r farn bod gan yr Ombwdsmon set glir o flaenoriaethau, a'i fod yn eithaf rhagweithiol wrth gymryd pob cyfle i gyflawni'r blaenoriaethau hynny.

NODWYD.

7. Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2014-2016

Dywedodd y Swyddog Monitro nad oedd y Panel wedi trafod llawer o fusnes yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac felly roedd wedi cynhyrchu adroddiad ar y ddwy flynedd flaenorol. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r adroddiad.

Nododd un Aelod y gellid datrys mater yn fwy boddhaol fel rheol pan ellid cytuno yn gynnar yn yr achos, a chytunodd y Swyddog Monitro bod yr Ombwdsmon yn ceisio datrysiad cyflym lle bynnag y bo modd.

NODWYD.

8. Gair o ddiolch

Gan mai hwn oedd cyfarfod diwethaf y Pwyllgor a fynychwyd gan y Swyddog Monitro, roedd y Cadeirydd yn dymuno diolch yn ffurfiol iddo am ei holl waith. Barnai bod y ffaith nad oedd adroddiad y Swyddog Monitro yn cynnwys llawer o sylwedd yn amlygu gwaith da o ran cynghori Aelodau'r Awdurdod. Gan ddiolch i'r Cadeirydd am ei sylwadau, barnai'r Swyddog Monitro bod hyn hefyd yn amlygu safon yr Aelodau. Ei obaith oedd gallu trosglwyddo'r awenau yn hwylus, ac ychwanegodd y byddai adroddiad yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Personél yr Awdurdod ar 22



Tachwedd yn nodi'r ffordd arfaethedig ymlaen. O ran hyfforddiant i'r Aelodau yn y dyfodol, oedd yn rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor, awgrymodd y Swyddog Monitro y dylai'r hyfforddiant ganolbwyntio ar wrthdaro posibl i'r Aelodau o ran y Cynllun Datblygu Lleol oedd yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

